## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Rhaglen Gyfalaf 2024/25 –<br>Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2025) |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Mai 2025 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
   - Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2025) o'r rhaglen gyfalaf.
   - Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 7 Mawrth 2024 ac a addaswyd ar 15 Hydref 2024 a'r 21 Ionawr 2025 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
     - cynnydd o £4,409,000 mewn defnydd o fenthyca
     - cynnydd o £17,639,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
     - cynnydd o £75,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
     - lleihad o £422,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
     - lleihad o £3,898,000 mewn defnydd o'r gronfa cyfalaf
     - cynnydd o £1,555,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2024/25 – 2026/27.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

### 3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn diwedd blwyddyn 2024/25. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhannau 3.2.2 a 3.2.3 o'r adroddiad (Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad) fel a ganlyn:

- Rhan 3.2.1: Prif Gasgliadau
- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £194.482m am y 3 blynedd 2024/25 – 2026/27.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £19.358m ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.4: Manylder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mae gan y Cabinet rôl i gymeradwyo'n ffurfiol yr ymgorfforiad o ariannu trwy grant i mewn i'r gyllideb gyfalaf, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**3.2.1 Prif Gasgliadau**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Buddsoddwyd £85.2m yn 2024/25 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £61.6m (72%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae £33.4m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2024/25 i 2025/26 a 2026/27, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

### 3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2024/25 i 2026/27

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2024/25 ar ddiwedd Mawrth 2025, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 12,086 | 20,568 | 2,795 | 35,449 | 274 |
| Amgylchedd | 7,516 | 3,698 | 1,697 | 12,911 | 1,119 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 87 | - | - | 87 | 13 |
| Cyllid | 1,451 | 1,413 | 609 | 3,473 | 103 |
| Economi a Chymuned | 40,298 | 15,538 | 1,974 | 57,810 | 12,091 |
| Tai ac Eiddo | 12,386 | 28,720 | 6,850 | 47,956 | 3,982 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 468 | 6,663 | - | 7,131 | 10 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,402 | 483 | - | 2,885 | 228 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 8,489 | 12,445 | 4,551 | 25,485 | 4,633 |
| Prif Weithredwr | - | - | - | - | - |
| Corfforaethol | - | 795 | 500 | 1,295 | (3,095) |
| **CYFANSWM** | **85,183** | **90,323** | **18,976** | **194,482** | **19,358** |

### 3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £19.358m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol am 2024/25 ar ddiwedd Mawrth 2025, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | CYFANSWM | Addasiad Technegol | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,057 | 4,057 | 4,057 | 12,171 | 0 | 0 |
| Benthyca Arall | 3,056 | 17,825 | 4,119 | 25,000 | 0 | 4,409 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 66,547 | 29,442 | 6,511 | 102,500 | 714 | 17,639 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 43 | 161 | - | 204 | 0 | 75 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,140 | 20 | - | 1,160 | 0 | (422) |
| Cronfa Cyfalaf | - | 19,632 | 307 | 19,939 | 2,688 | (3,898) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 10,340 | 19,186 | 3,982 | 33,508 | (3,402) | 1,555 |
| **CYFANSWM** | **85,183** | **90,323** | **18,976** | **194,482** | **0** | **19,358** |

**Dangos y Grant Cyffredinol o'r setliad ar y rhes Grantiau yn hytrach na Benthyca/Setliad fel yn y gyllideb 2024/25.*

### 3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £19.382m a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £17.639m (gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion) :

- £10.613m Addasiad Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig
- £1.864m Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru
- £1.362m Grant ARFOR 2 gan Lywodraeth Cymru
- £0.971m Grant Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau ac eraill
- £0.800m Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

- £0.713m Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2024/25
- £0.457m Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru

**3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf**

Mae Côd Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus ( gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion).

**3.3 Camau nesaf**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**4.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad 2 - Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Atodiad 3 – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2024/25

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

Cyllideb 2024-2025 : Cyllidebau Blynyddol (llyw.cymru)

Strategaeth Cyfalaf 2024-25 : Cyngor Llawn 07/03/24: Eitem 12 - Strategaeth Gyfalaf 2024-25 yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyca.pdf (llyw.cymru)

**ATODIAD 1**

**Manylion y Prif Newidiadau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf:

| | 2024/25<br>£'000 | 2025/26-2026/27<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Benthyca Arall** | | |
| • Cynllun Cartrefi Grŵp Bychain *(Adran Plant a Theuluoedd)*. | 21 | |
| • Cynllun Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol (CRMP) Gerddi Traphont , Abermaw *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 876 | 3,489 |
| • Cerbydau yn y meysydd gwastraff ac ailgylchu; cywiro ariannu offer technoleg gwybodaeth *(Adrannau Amgylchedd; Cyllid).* | 23 | |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2024/25 *(Adran Addysg).* | 713 | |
| • Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau *(Adran Addysg).* | (129) | |
| • Grantiau a Chyfraniadau gan nifer o asiantaethau tuag at gae hoci yn Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala *(Adran Addysg).* | 220 | |
| • Rhan cychwynnol o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy tuag at Ysgol Bontnewydd *(Adran Addysg).* | 118 | |
| • Grant gan Gwasanaeth Ynni, Llywodraeth Cymru tuag at gerbydau allyriadau isel iawn *(Adrannau Addysg; Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo).* | 120 | |
| • Grantiau cynllun ARFOR 2 gan Lywodraeth Cymru tuag at ddatblygu cymunedau mentrus *(Adran Economi a Chymuned).* | 1,362 | |
| • Addasiadau Grantiau yn y maes adfywio gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | (60) | |

| | |
|---|---|
| • Grant Economi Gylchol gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 157 |
| • Addasiad i'r grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y Cynllun i ddatblygu Canolfan Iechyd a Lles ym Mangor *(Adran Economi a Chymuned).* | (274) |
| • Grant Cymorth Bwyd Uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 46 |
| • Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 10,613 |
| • Addasiad i Grant gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu system ar gyfer rheoli llyfrgelloedd *(Adran Economi a Chymuned).* | (23) |
| • Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 457 |
| • Grant Cronfa Tai Gofal ar gyfer cartrefi i blant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Theuluoedd).* | (249) |
| • Grant Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | (118) |
| • Addasiad i'r grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun preswyl yn Penrhos, Pwllheli *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | (111) |
| • Grant Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru i uwchraddio cyfleusterau cyhoeddus *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 25 |
| • Addasiad i'r elfen dylunio o grant gan Lywodraeth Cymru tuag at gynllun Prom y Gogledd, Abermaw *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | (900) |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at gynllun atal llifogydd Afon Cadnant, Caernarfon *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 419 |

| | | |
|---|---|---|
| • Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 79 | |
| • Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 281 | |
| • Grantiau a chyfraniadau gan Lywodraeth Cymru , Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC(WCVA)) tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd)* | 209 | |
| • Cyfraniad tuag at beiriant torri gwair i'r safleoedd Tirlenwi gan Partneriaeth Natur Gwynedd *(Adran Amgylchedd).* | 27 | |
| • Grant Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau gan Lywodraeth Cymru a chyfraniadau o ffynhonellau eraill tuag at ddichonoldeb cynlluniau *(Adran Tai ac Eiddo).* | 971 | |
| • Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 1,864 | |
| • Grant Cynllun Lesu Cymru gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 57 | |
| • Cywiro ariannu Grant Cronfa Rhyddhau Tir (LRF) gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 213 | |
| • Grant Cyfleusterau i'r Anabl gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 105 | |
| • Grant tuag at y cynllun i Ddatgarboneiddio Gwres o fewn y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo).* | 109 | |
| • Grant Ynni Cymru tuag at fatris trydanol *(Adran Tai ac Eiddo).* | 299 | |
| • Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru *(Corfforaethol).* | 800 | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Gwelliannau i safle Glyn Rhonwy, Llanberis *(Adran Economi a Chymuned).* | 3 | 53 |

| | |
|---|---|
| • Ariannu amrywiol gostau grantiau Rheoli Prosiect Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | 19 |
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | |
| • Addasu'r defnydd o'r refeniw oherwydd derbyniad y Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 2024/25 *(Adran Addysg).* | (1,005) |
| • Cyfraniadau ysgolion unigol tuag at amrywiol gynlluniau penodol *(Adran Addysg).* | 215 |
| • Cyfraniadau refeniw tuag at gynllun toiledau *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 29 |
| • Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau amgylcheddol *(Adran Amgylchedd).* | 67 |
| • Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau eiddo *(Adran Tai ac Eiddo).* | 201 |
| • Cyfraniadau refeniw amrywiol adrannau tuag at offer cyfrifiadurol *(Adran Cyllid).* | 70 |
| **Cronfa Cyfalaf** | |
| • Addasu'r defnydd o'r Gronfa Cyfalaf oherwydd derbyn Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru *(Corfforaethol).* | (800) |
| • Addasu'r defnydd o'r Gronfa Cyfalaf oherwydd wedi ail broffilio'r Cynllun Rheoli Asedau yng Nghyllideb 25/26 yn barod ac felly dim angen llithro *(Corfforaethol).* | (3,095) |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Addasiad cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned).* | 153 |
| • Adnewyddu Cerbydau ac Offer o gronfeydd adrannol *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo).* | 772 |
| • Cyfraniad y gronfa hinsawdd tuag at gynllun adnewyddu cerbydau i rai trydan *(Adrannau Addysg; Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo).* | 143 |

| | |
|---|---|
| • Cyfraniad y gronfa trawsffurfio tuag at gynllun cerbydau gwastraff trydan *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 48 |
| • Arian cyfatebol tuag at gynllun atal llifogydd Afon Cadnant, Caernarfon *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)*. | 74 |
| • Arian cyfatebol tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).* | 165 |
| • Cyfraniad tuag at gwaith swyddfeydd a chynlluniau eraill *(Adran Tai ac Eiddo).* | 145 |
| • Pryniant sgriniau rhyngweithiol ar ran ysgolion - i'w ad-dalu *(Adran Cyllid).* | 44 |

----------------------------

**ATODIAD 2**

**Manylion Ail-broffilio'r Gyllideb**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | **2024/25**<br>**£'000** | **2025/26 - 2026/27**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (15,987) | 15,987 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol; Adfywio *(Adran Economi a Chymuned)* | (2,971) | 2,971 |
| Cronfa Ffyniant Bro *(Adran Economi a Chymuned)* | (10,756) | 10,756 |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | (530) | 530 |
| Sefydliadau Plant gan gynnwys Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)* | (483) | 483 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (3,500) | 3,500 |
| Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (3,163) | 3,163 |
| Cynlluniau ffyrdd; strwythurau; prynu tir claddu; Amlosgfa *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | (1,176) | 1,176 |
| Adnewyddu Cerbydau ac Offer *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo)* | (5,912) | 5,912 |
| Cynlluniau Risgiau Arfordirol ac Atal Llifogydd *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | (2,432) | 2,432 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth, Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig *(Adran Amgylchedd)* | (324) | 324 |
| Meysydd Parcio – Ail-wynebu, peiriannau talu ac arddangos *(Adran Amgylchedd)* | (99) | 99 |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd).* | (48) | 48 |
| Cynlluniau Gwastraff ac Ailgylchu *(Adran Amgylchedd).* | (162) | 162 |
| Cynlluniau Strategaeth Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | (16,828) | 16,828 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynllun Grantiau ac Eraill Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | (1,113) | 1,113 |
| Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl, Swyddfeydd; Mân-ddaliadau *(Adran Tai ac Eiddo)* | (254) | 254 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,822) | 2,822 |
| Cynlluniau Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (271) | 271 |
| Cynlluniau Datgarboneiddio Gwres *(Adran Tai ac Eiddo).* | (158) | 158 |
| Adnewyddu Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth *(Adran Cyllid).* | (915) | 915 |
| Adnoddau Cynllun Asedau'r Cyngor heb ddyrannu *(Corfforaethol).* | (295) | 295 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD 3**

**Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2024/25 - Alldro**

Mae’r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthyca gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Côd Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

Fe adlewyrchir yma’r sefyllfa a’r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â’r broses cau cyfrifon i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

**Gwariant Cyfalaf**

Mae’r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

| | **Gwir 2023/24 £m** | **Gwir 2024/25 £m** | **Cyllideb 2025/26 £m** | **Cyllideb 2026/27 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 56.9 | 85.0 | 90.7 | 19.3 |
| Prydlesu Cronfa Gyffredinol * | 0.0 | 5.0 | 0.0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **56.9** | **90.0** | **90.7** | **19.3** |

**Mae’r Gwariant Cyfalaf am 2024/25 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau ac nid yw’n cynrychioli gwir wariant.*

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2024/25 yn cynnwys ( gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo’n berthnasol) :

- Cynlluniau /Strategaeth Tai - £17.9m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Gyffredin - £16.4m
- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £16.1m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro - £10.1m
- Atal Llifogydd Arfordirol - £3.9m
- Cynlluniau Eiddo - £3.7m

**Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

| | **Gwir 31.3.2024 £m** | **Gwir 31.3.2025 £m** | **Amcan 31.3.2026 £m** | **Amcan 31.3.2027 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol * | 173.5 | 179.6 | 195.6 | 197.4 |

** Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £5m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

**Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

| | **Gwir 31.3.2024 £m** | **Gwir 31.3.2025 £m** | **Amcan 31.3.2026 £m** | **Amcan 31.3.2027 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau) | 101.3 | 98.7 | 94.0 | 88.6 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 173.5 | 179.6 | 195.6 | 197.4 |

**Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol**

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

| | **Uchafswm Dyled 2024/25 £m** | **Dyled ar 31.03.2025 £m** | **Terfyn Awdurdodedig 2024/25 £m** | **Ffin Gweithredol 2024/25 £m** | **Wedi cydymffurfio ?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 98.3 | 93.0 | | | |
| Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau | 5.7 | 5.7 | | | |
| **Cyfanswm Dyled** | 104.0 | 98.7 | 200 | 190 | Do |

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw'r ffin gweithredol, nid yw'n arwyddocaol os eir yn uwch na'r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

**Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net**

Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

| | **Gwir 2023/24** | **Gwir 2024/25** | **Cyllideb 2025/26** | **Cyllideb 2026/27** |
|---|---|---|---|---|
| Costau Ariannu * (£m) | £7.1m | £9.1m | £10.6m | £11.2m |
| Cyfran y Llif Refeniw Net (%) | 2.2% | 2.7% | 3.0% | 3.1% |

** Mae'r Costau Ariannu am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £0.7m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o'r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.